# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## Ymgynghoriad ar Adolygiad Polisi Ffrydio Cydraddoldeb

### Llythyr Ymgynghori

25 Gorffennaf 2003

Annwyl Gyfaill

**Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal - Ymgynghoriad ar Adolygiad 'Polisi Ffrydio Cydraddoldeb'**

Mae Pwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penderfynu cynnal adolygiad o'r ffyrdd y gellir prif ffrydio cydraddoldeb yng ngwaith y Cynulliad.

Dyma gylch gorchwyl yr adolygiad:

"Ystyried sut y gellir prif ffrydio cydraddoldeb yng ngwaith y Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad."

Mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu'r diffiniad isod o brif ffrydio fel man cychwyn:

*Mae 'prif ffrydio' cydraddoldeb yn ymwneud ag integreiddio egwyddorion, strategaethau ac arferion cyfle cyfartal yng ngwaith bob dydd y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill. Mae'n golygu y dylid ystyried materion cydraddoldeb o'r cychwyn cyntaf, a hynny fel rhan anatod o'r gwaith o lunio polisi a darparu gwasanaethau. Dylai'r nod o sicrhau cydraddoldeb fod yn sylfaen i bob agwedd ar waith pob unigolyn sy'n gweithio mewn sefydliad.*

Yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i'r Cynulliad "wneud trefniadau priodol i sicrhau y rhoddir ystyriaeth ddyledus i'r egwyddor o gyfle cyfartal i bawb wrth gyflawni ei swyddogaethau". Mae gofyn iddo hefyd baratoi adroddiad bob blwyddyn i nodi pa mor effeithiol yw'r trefniadau hyn.

Nod yr adolygiad yw llunio camau ymarferol i helpu'r Cynulliad i wireddu'i ddyletswydd o dan y Ddeddf ac i sicrhau bod materion cyfle cyfartal yn chwarae rôl ganolog yn y gwaith o lunio polisi a darparu gwasanaethau yng Nghymru.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu'ch sylwadau cychwynnol am y pwnc, ac yn arbennig

am y cwestiynau isod:

- A ydych yn cytuno â diffiniad y Pwyllgor o 'brif ffrydio cydraddoldeb'?
- Ar hyn o bryd, pa mor effeithiol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru o ran ystyried materion cyfle cyfartal yn eu gwaith?
- Sut y gallent fod yn fwy effeithiol? Byddem yn croesawu enghreifftiau o arferion da a gwael.
- Pa gamau ymarferol y dylid eu cymryd i sicrhau bod materion cydraddoldeb yn rhan ganolog o'r gwaith o lunio polisi a darparu gwasanaethau yng Nghymru?

Dylech anfon eich sylwadau, drwy e-bost neu ar ddisg os yn bosibl, ond ar bapur fel arall, at:

Lara Date
Dirprwy Glerc
Pwyllgor Cyfle Cyfartal
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
Cyfieiriad e-bost: Equality.comm@wales.gsi.gov.uk

Dylech anfon eich sylwadau atom erbyn dydd Llun **8 Medi 2003** fan bellaf.

Dylech nodi bod y Cynulliad Cenedlaethol fel arfer yn cyhoeddi ymatebion i ymgynghoriadau cyhoeddus. Os nad ydych yn dymuno i'ch ymateb neu'ch enw gael ei gyhoeddi, mae'n bwysig eich bod yn nodi hynny ar ddiwedd eich sylwadau.

Byddai hefyd o gymorth i ni pe baech yn dweud a fyddech yn fodlon rhoi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â Claire Bennett, Clerc y Pwyllgor
Ffôn 029 2089 8155
E-bost: claire.bennett@wales.gsi.gov.uk

neu

Lara Date, y Dirprwy Glerc
Ffôn 029 2089 8026
E-bost: lara.date@wales.gsi.gov.uk

Yn gywir

**Gwenda Thomas AM**
**Cadeirydd - Pwyllgor Cyfle Cyfartal**